



Llais y Llan Ebrill 2022

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Fai 2022

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n
arianol at Lais y Llan

Digwyddiad dal i fyny cymunedol yn Neuadd y pentref
Dydd Sadwrn 2 Ebrill 2022





Children attending Cylch Meithrin, Bronwydd
for St Davids Day

Cyflie gwych i weithio gyda chriw o blant talentog a hyfryd.

Swydd yn rhedeg Clwb Gofal ar ôl Ysgol, rhwng 3.30 a 5.30 ar Nos Fawrth a Nos Iau!

Cysylltwch am fwy o wybodaeth
01267253446

**TSCOL GYNRAEDD
LLANPUMSAINT**

A great opportunity to work with a talented and amazing group of children.

A position to run the After School Club between 3.30 and 5.30 on Tuesday and Thursday!

Contact us for more information
01267253446



Love is in the air / Mae cariad yn yr awyr
Veronique Jones



Enjoying the spring sunshine/ Heulwen y gwanwyn
(Clare Bishop)



Marsh Tit/Titw'r Gors
(Ray Davies)

Bowlio Dan Do Llanpumsaint a Nebo

Bu cychwyn 2022 yn un llewyrchus i'r Clwb. Dilynwyd buddugoliaeth 8-0 erbyn Llandeilo yn y gêm gartref gynta', gan ddau ganlyniad 6-2 erbyn Llanddarog A a Llanboidy B. Gydag ond dwy gêm yn weddill gwelwn ein hunain yn yr ail safle wedi 4 buddugoliaeth, 1 yn gyfartal a cholli ond un.

Hoffwn hefyd longyfarch ein Capten Aled Edwards fu'n un o ugain i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Bowlio Dan Do'r Byd yng ngwlad Belg ym mis Mawrth. Enillodd Aled a'i bartner Dafydd Hywel o Bontargothi bob un o'u saith gem a'r un go-derfynnol hefyd. Yn y gystadleuaeth derfynol daethant o fewn 10 i 12 erbyn pencampwyr Cymru a Phrydain o Sir Benfro. Dychwelodd Aled adre gyda thlws Arian hollol haeddiannol.

Mae dau o'n hieuenctid wedi cynrychioli Cymru erbyn Lloegr dan 21ain, gynhalwyd yn Abertawe eto ym mis Mawrth. Chwaraeodd y brawd a chwaer Rhys a Catrin Williams yn hynod o dda ar y dydd, ond er yn agos aeth Lloegr a hi yn y diwedd. Cofiwch gadw llygad ar ein Gwefan am y diweddaraf am ein clwb

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos lau yn y Neuadd o 7.30 yh tan 9.30, hyd ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein **Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.**



Codwyr Cynnar yn mwynhau Cytgan Adar y Wawr

Os ydych yn godwr cynnar byddwch eisoes wedi mwynhau hyfrydwch cytgan y wawr. O 5 o'r gloch ymlaen bydd y dryw bach, gyda'r fronfraith, yr aderyn du a'r robin goch wrthi'n ddyfal. Dethlir Dydd Cytgan Adar y Wawr ar Sul 1ail o Fai.

Mae'r rhan fwyaf o'r drudwns wedi dychwelid tua gogledd Ewrop am weddill yr Haf. Ymlysg y cyntaf i gyrraedd o'r Sahara daeth yr asgell faith eisoes wrthi'n nythu yn y coed. Cyn hir fe welwn y gwennoliaid a gwennol y to yn ôl yma i Lanpumsaint, lle rydym yn ffodus o'r holl amrywiaeth yma oherwydd i rain bellach fod mewn perygl ar y rhestr goch. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn eu niferoedd oherwydd prinder lleoliadau nythu a bwydydd addas. Bydd y gwennoliaid eraill yn dychwelid wedi taith o 6 mil o filltiroedd o Dde'r Affrig. O hedfan 200milltir y dydd bydd yn daith o ryw bedair wythnos iddynt. Mae hyn yn gamp arwrol i aderyn bach sy'n pwysol llai nag 20 gram, pwysau rhw 4 darn arian 20c.

Felly estynnwn groeso gwresog iddynt oll. Os dewisir eich tŷ yn safle nythu yna byddwch amyneddgar gan oddef unrhyw anghyfleustra am ychydig wythnosau, cyn iddynt droi 'n ôl a dychwelid eto i'r de. Os am ddenu rhai atoch yna nid yw'n rhy hwyr i osod nyth lan rhywle.

Clare Bishop

Pwyllgor Lles ac Adloniant

Estynnwyd y dyddiad cloi i ymuno a'r Clwb Cant hyd ddiwedd Ebrill, felly dyma gyfle arall i ymuno a'r fenter. Os ydych am fentro neu'n barod i gynnig help llaw i redeg y sioe, cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor neu E-bostiwch llanpumsaint 100club@gmail.com <mailto:100club@gmail.com>. £12 yw hi i ymaelodi am flwyddyn gyda'r enillwyr yn cael eu tynnu bob mis ac un fawr adeg y Nadolig. Tynnir y ddwy gynta', sef Mawrth ag Ebrill ar ddiwedd Ebrill oherwydd yr estyniad. Pob hwyl!

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas Lles ac Adloniant ar nos Lun 25ain o Ebrill am 8 o'r gloch yn y Neuadd. Mae'n agored i unrhyw un fod yno a byddem yn croesawu unrhyw un sydd am ymuno a'r Pwyllgor am y flwyddyn.

Bydd gwaith yn dechrau i atgyweirio ac ychwanegu at y cyfarpar yn y maes chwarae, o ganol Ebrill ymlaen, diolch i haelioni Cronfa Fferm Wynt Brechfa. Cymerir tua 8 wythnos i'w gwblhau. Felly gobeithiwn weld y Maes Chwarae yn agored a gweithredol erbyn tymor yr Haf. Felly diolch am eich amynedd tra bod y gwaith ar droed, ond ni fydd hyn yn ymhari ar y beldroed na'r tenis.

Wrth i'r tywydd wella gosodir rhwyd newydd i'r tenis er mwyn annog ein hieuencid tua Wimbledon. Diolch yn fawr i Gronfa Gymunedol CAVS am ein galluogi i brynir cyfarpar newydd. Yn ôl ein harfer edrychwn o amgylch am aelodau newydd i'n cymorth gyda'r cynnal a chadw a'r ymgyrchoedd Codi Arian. Felly cysylltwch â parcllanpumsaintpark@gmail.com <mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com> neu siaradwch ag **Aaron Jones 07814157946** neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor am wybodaeth.

Tymor y Garlleg Gwylt

Nawr yw'r amser i fwynhau'r holl arleg gwylt sy'n ffynnu yn ein cloddiau. Dail llachar gwyrdd ac yna yn Mai daw'r blodau gwyn. Shwt allwch sicrhau mae garlleg gwylt yw e? Ewch ar y We lle mae digon o luniau i'ch cymorth - gwasgwch ddarn ohono ac fe ddaw ei arogl unigryw yn amlwg.

Pa ddefnydd wnewch ohono? Eto mi ddewch o hyd i sawl resait ar y We, ond ein ffefrynn ni yw cawl garlleg. Ffriwch winwnsyn yn ddarnau gyda thato gan ychwanegu llawn padell o ddail garlleg. Ychwanegwch bibir a halen ag unrhyw weddillion bwydlysiau, ac yna mwynhewch. Mae yna sawl resait arall - gellir ei ddefnyddio mewn salad neu fath o fenyn i'w gadw yn y rhewgell a'i ychwanegu at brydiau gwahanol. Mae pesto garlleg gwylt yn hynod flasus gyda phasta.

Carolyn



Tircoed



Bum yn gysylltiedig â'r elusen Tircoed ac wedi mynchu nifer o'i gweithgareddau lechyd a Lles, Croeso i'r Coed, a Rheolaeth Gynaliadwy. Pwrpas rhain yw cysylltu â phobl er mwyn hyrwyddo iechyd a lles, hyfforddiant mewn sgiliau coed a rheolaeth gynaliadwy coedwigodeedd. Bydd y cyrsiau'n gymorth i unigolion ail gydio mewn gwaith gan ymwneud ag eraill o'r un bwriad gan gyfathrebu unwaith eto gyda natur. Llwyddodd Tircoed ennill cymorth ariannol oddi wrth Gronfa Fferm Wynt Brechfa er mwyn rhedeg y cyrsiau yma, felly po fwyaf o bobl leol wnaeth ymuno gore i gyd. Bydd yna gyrsiau'n rhedeg drwy gydol 2022 gan gychwyn ym mis Mawrth.

Dyddiadau - Mercher 20fed - lau 21ain - a lau 28ain. Ebrill - 10yb hyd 4yp cwsr 4 diwrnod ar sgiliau coetir yn Keepers. Dros y cyfnod fe ddysgwch sgiliau newydd gan flasu nifer o

weithgareddau Tircoed, gan gynnwys gweithio coed yn y gwyrdd, cynnu tanau, a rheolaeth coetir cynaliadwy. Os am fynychu rhai o'r cyrsiau yma cysylltwch â Jenna Morris (Menter Si Gaerfyddin) 07396 698826. Rhyddid i chi drosglwyddo'r neges i unrhyw un o fewn ardal Fferm Wynt Brechfa.

Chris Peake



Tafarn y Railwe yn ail-agor

Bu Steve a Damien wrthi'n ddyfal iawn y paratoi'r Railwe gogyfer ag ail-agor. Byddant yn gweini bwyd a diod ac yn awyddus i'ch croesawu'n ôl i'r dafarn leol. Cadwch lygad ar agor am y dyddiad agor ar wefan Facebook y pentref Llanpumsaintarcylch am y diweddaraf.

Y Rhandir

Dyma'r amser o'r flwyddyn pan ddechreuwn gynhaefu'r hyn a blannwyd, ond gyda phris popeth yn codi ar hyn o bryd, plannu a llefen fyddai'n fwy priodol. Mae gennym ddarnau'n sbâr yn y Rhandir ar hyn o bryd felly croeso i aelodau newydd. Os ydych fel fi heb lawer o glep arni yna mae yma ddigon o dyfwyr profiadol i gynnig help llaw. £35 yw'i aelodaeth am y flwyddyn gyntaf ond £25 bob blwyddyn ar ôl hynny. Cewch werth eich arian yn bendant, felly edrychaf ymlaen at eich gweld.

Os am dyfu cnwd llawer mwy blasus eich hunan gan arbed ceiniog neu ddwy dewch i fwynhau'r awyr iach mewn safle heulog cynnes. Cysylltwch â **Rosie ar 07950 411536 neu Sarah 07811 288104**.

Becki

Eglwysi Llanpmsaint, Llanllawddog a Sant Celynin Bronwydd



Bu'r eglwys a'r fynwent yn Celynin ar gau oherwydd difrod storom, ond cynted i'r atgyweirio gorffen bydd gwasanaethau'n dychwelid am 11 bob bore Sul.

- Dydd Mawrth – Y Caffi Bach – Eglwys Llanpumsaint 11.30 hyd 2.30.
 - Bore Mercher Boreol Weddi Zoom am 9 o'r gloch
 - Dydd Iau - Cylch Ieuenciad DOT i rai dros 10 oed
- Cyswllt y Parch Gaynor Jones-Higgs 01267 253158
gaynorjones-higgs@CinW.org

Dilynwch ein tudalen Facebook am ragor o wybodaeth Llanpumsaint, Bronwydd and Llanllawddog churches | Facebook

Mae ein holl eglwysi yn rhan o'r Cynllun Ecolegol gyda Llanpumsaint a Llanllawddog yn cynnal safle arian - yr unig ddwy yn yr esgobaeth.

Capel Ffynnon Henri

Yn ddiweddar yr ydym wedi bod yn cwrdd yn y Festri o dan ofal y Parch Huw George ond yn gobeithio yn y dyfodol agos i fynd yn ôl i'r Capel i addoli. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a **Mr Danny Davies (Trysorydd) ar 01267 253418 neu Mr Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) ar 01267 253686**

Gwylio Cyflymder Cymunedol

Mae Heddlu Dyfed Powys yn gweithredu cynllun o'r enw Gwylio Cyflymder Cymunedol, lle mae grŵp o wifreddolwyr yn monitro cyflymder cerbydau mewn pentref. Yna anfonir llythyr at berchnogion y cerbydau sy'n mynd dros y terfyn cyflymder gyda'r nod o addysgu gyrwyr yn hytrach nag erlyn. Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol ym Mronwydd yna cysylltwch â'r clerc drwy e-bost clercbcc@ymail.com

Diolch

Mererid Morgan, Clerk/Clerk, Bronwydd Community Council

Clwb Gwili Chwedeg

Daeth nifer fawr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y 28ain o Chwefror gan fwynhau'r cawl, y danteithion a'r adloniant gan Fand Ukulele Caerfyrddin. Diolch i bawb gan gynnwys ein haelodau newydd am wneud yr achlysur mor gofiadwy.

- Ebrill 25ain - Ian Goddard - O'r Gwlân i'r Carped
- Mai 11eg - Trip i'w drefnu
- Mai 23ain – Robert Owen – RNLI
- Mehefin 15ed – Trip i'w drefnu
- Mehefin 27ain – Hybarch Dorian Davies Archdeacon Caerfyrddin – Arddangosfa Flodau

Daw gwybodaeth bellach yn y rhifyn nesaf o Lais y Llan. Ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwyyd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy; £15 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen. £7 y tro os nad ydych yn aelod a hynny am ddau gyfarfod. 'Does dim angen cyfarpar jyst trowch lan. Efallai bydd gwisgo mwgrwd a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio. Gwyliwch ein gwefan - <http://westwalesdowsers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547

Cyfarfodydd yn Neuadd Bronwydd i gychwyn am 1.45 yp.

- **Sul 1af Mai – Shelley Underhill Savage – Iachau drwy Sain a sut mae gwneud.**
- **Sul 22ain Mai – Eve Crystal – Bwa'r Arch Aroma Iachau drwy dechnegau Aromatherapi**
- **Sul 26ain Mehefin – I'w drefnu**

Curad Calon Llanpumsaint – Y 4 Adfywiwr

Da adrodd i ni elwa o aelodau newydd yn ein Cyfarfod Cyffredinol er mwyn gofalu am ein peirannau Adfywio yn y safleoedd canlynol -

- **Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ**
- **Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU**
- **Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri SA33 6LD**
- **Tu fas Festri Capel Nebo SA33 6HN**

Cofrestrir y 4 ar The Circuit cenedlaethol sydd ar restr y Gwasanaeth Ambiwlans pe bae galw'n dod. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o le mae'r un agosaf atoch pe bo angen. Nid oes angen cod i'w ddefnyddio a bydd y Gwasanaeth Ambiwlans ar gael i gynghori dros y ffon.

Byddwn yn cynnal cyrsiau hyfforddi nes ymlaen yn yr Haf gan gynnwys Adfywio Cardiopylmonari (CPR) a defnydd o'r Adfywiwr. Ond mae'n bwysig sylweddoli bod yr Adfywiwr yn gallu eich siarad drwy'r holl ymarfer wrth i chi geisio arbed bywyd. Ni allwch wneud niwed i neb, gwneith yr Adfywiwr yn siŵr o hynny. Mae gennym hefyd Becyn Hyfforddi ellir eu defnyddio adref, felly rhowch wybod os am gael un.

Carolyn Smethurst 01267 253308

Cyflwyno Llinell Gymorth Anne Robinson -

Os ydych chi neu unrhyw un yn agos atoch ar farw gallwch siarad â ni.



Yma yn Ymddiriedolaeth Anne Robinson ein bwriad yw gwrando ar unrhyw un sy'n wynebu marwolaeth neu ar golli rhywun agos atynt. Gwyddom fod wynebu'r terfyn yn gallu bod y profiad unig a digalon. Mae'r cyfle i dderbyn cymorth mor bwysig. Mae bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n debygol i ddigwydd ar derfyn bywyd a bod yn barod amdano yn gymorth i'r claf ac i'r rhai agos atynt. Mae'n galluogi teimlad o reolaeth dros y sefyllfa

Galwch yn rhydd a chyfrinachol ar **0808 801 0688** –

Mae gennym amser i drafod a siarad.

www.annerobinsontrust.org.uk/helpline-service

Clafdy Skanda Vale yn blodeuo unwaith eto

Fel rhan o'r Cynllun Garddio Cenedlaethol mae Skanda Vale yn agor yr ardd brydferth ar 4dd o Fehefin a'r 6ed o Orffennaf rhwng 11yb a 4.30yp. Dyma wledd unigryw mewn amgylchedd arbennig iawn. Ar wahân i'r ardd tywyswn ein hymwelwyr o amgylch y Clafdy, ac mi fydd yna ddanteithion blasus i'w profi ynghyd a digon o wenu. Ymledwch y newyddion, cofiwch y dyddiadau a dewch a chyfaill gyda chi. Edrychwn ymlaen at eich croesawu.

Mae'r Clafdy yn dal i ffynnu o ddydd gyda phawb yn hapus i fod yn ôl yn cyflawni'r hyn a garent. Bûm yn edrych ar sylwadau calonogol ein gwirfoddolwyr yn ddiweddar a hoffwn rannu rhai ysbrydoledig gyda'ch.

"Mae dod yma fel dod adre" - "Bu gwirfoddoli yma yn un o'r pethau gorau wnes yn fy mywyd - yn caru a thrysori fe" - "O'r diwedd rwy'n gallu rhoi gofal yn y ffordd rwy am" - "Does dim yn fwy gwerthfawr i mi na bod yma - ni fel un teulu mawr".

Mewn cyfnod pan danlinellwyd anghenion cymdeithas mor amlwg mae'n ostyngedig ac yn wirioneddol galonogol i glywed am ddylanwad y clafdy, sy'n llawer mwy na thybiwyd. Rydym hefyd yn awyddus i fod yn fath ôl le sy'n groesawgar i'n cymdogion, yn ddiolchgar am unrhyw gymorth. Mae gwastad digon o angen mwy o wirfoddolwyr yn ein cymuned felly peidiwch ag oedi os am ymuno a ni.

Gyda chariad wrthym ni gyd –

Nicky Gilbert 01559 371222, nickygilbert@skandvalehospice.com

Gwytnwch mewn Hinsawdd Gyfnewidiol

Bu'r dyddiau hir yn Chwefror yn hir ddisgwyl i'r trydan dychwelid wedi Storom Eunice yn bwnc trafod i'n hŵyr oedd yn digwydd bod yma gyda'i rieni ar y penwythnos hwnnw. Fe gofiwn ni am yr wythnos dridiau pan ddiffoddwyd y trydan yn rheolaidd i bawb. Felly bu'n rhaid wrth gynlluniau gwahanol i'r diwrnodau hynny heb drydan. Dyna ddyddiau cyn y ffon boced a chyn y We, felly bu'n rhaid dygymod.

Y tro hwn ni fu rhybudd am gyfnod mor hir heb drydan, felly heb ffon na theledu. 'Roedd gennym ganhwyllau ag ambell dortshs a digon o flachiau. Bu tortsh wrth y pen yn ddefnyddiol iawn wrth chwiliota lan lloft. Digon o fwyd wrth law heb y modd i'w goginio - felly ffwrn nwy amdani. Wrth lwc roeddem heb ei gwaredi ac aros bydd hi nawr wedi'r profiad ddigwyddodd. Felly bu modd twymo dwr er mwyn diodydd a choginio ryw ychydig. Oherwydd bod gennym danc dwr wrth y gwresogydd gallai neb osgoi golchi lan, a llwyddom gael cawod drwy fendith yr un tanc. I gadw lan a'r newyddion daeth hen radio yn ôl i ddefnydd.

Gyda batris y ffon symudol yn rhedeg mas byddai'n anodd cadw mewn cysylltiad ag unrhyw newyddion. Penderfynodd y teulu ddychwelid i Lundain ond cyn ymadael aed a'r ci am dro tua'r afon cyn ei roi yn y car am siwrne hir. O ddychwelid i'r tŷ gwelsom fod popeth wedi dod 'nôl, golau, Band Llydan a phob batri'n ail lanw. Hwre! Un peth a ddysgydd oedd bod angen i ni baratoi'n fanylach at argyfwng tebyg i'r dyfodol. Rhaid cadw wrth law tortshis, canhwyllau, stôr o fflachiadau, lampau batris a photeli dwr poeth. A nes gwneith BT ein newid i Digital Voice angen hen ffon i'w chysylltu yn yr hen ffordd. Nid yw'r ffon boced yn gweithio lle i ni'n byw..

Rhaid sicrhau hefyd nad i ni'n holol ddibynnol ar y cyflenwad trydan. Daeth llawer o bethau defnyddiol dros ben yn sgil trydan ond o'i golli nid yw cloch y drws hyd yn oed yn gweithio. Bydde ffwrn fach campio nwy yn bwysig wrth gefn, i ferwi dŵr, llanw thermos neu baratoi ychydig gawl i gadw fynd. Gellid hefyd ffrio selsig neu wneud pancws.

Carolyn

Blwch Ffon ger yr Eglwys nawr yn Gyfnewidfa Lyfrau



Mae Cylch DOT yr Eglwys a'r Cyngor Cymuned wedi cydweithio i ail wella'r Blwch a leolir y tu allan i'r Eglwys. Y Cyngor yw'r perchnogion sydd wedi darpari'r paent ac offer er mwyn i DOT fynd ati i adnewyddu. Dechreuwyd ar y gwaith o waredi'r hen baent a glanhau'r tu fewn yn Nhachwedd 2021. Gosodwyd caban tu fewn, ac yn Chwefror 2022 dychwelodd DOT i ychwanegu cot liwgar goch o baent. Trefnwyd y Caban a lluniwyd arwyddion.

Sut yw ddefnyddio? - Gwasanaeth rhad ac am ddim sydd yma., Dewiswch llyfr a'i gadw am faint a fynnwch neu gadewch un o'ch rhai chi yn ei le. Gwelir nifer o arwyddion o amgylch y Blwch. Gallwch ychwanegu eich sylwadau yn y Llyfr Ymwelwyr.

Gan fod DOT yn anelu tuag at Wobr Arian Peace Mala, bydd y cynllun llyfrau'n gymorth iddynt gan eu bod yn cydweithio a'r gymuned. Bydd hyn hefyd yn gymorth i ymgyrch Eco'r Eglwys oherwydd ail ddefnydd o'r Blwch, y Caban a'r llyfrau benthyg.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu llyfrau a diolch i bawb wnaeth estyn cymorth i DOT. A diolch i Gyngor Cymuned Llanpumsaint am ein galluogi i wneud hyn. Gobeithio y gnewch fwynhau defnyddio'r Gyfnewidfa Lyfrau - defnyddiwr hi unrhyw adeg.

Megan ac Emma www.peacemala.org.uk

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri

Agoriad Swyddogol y Neuadd

Ar yr ail o Ebrill cynhaliwyd agoriad swyddogol y neuadd. Gwahoddwyd busnesau a stondinau lleol ynghyd a chynrychiolydd o'r Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa. Braf oedd gweld y gymuned yn medru dod at ei gilydd dros paned a chacen. Diwrnod oedd wedi cael ei mwynhau gan bawb!

Llogi'r Neuadd

Er mwyn llogi'r Neuadd a wnewch chi gysylltu ag Ann trwy e-bost llanpumsainthallbooking@gmail.com neu ar 01267 253028 a gadael neges iddi.

Brics Codi Arian

A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrdin



Dyma brosiect ledled y DU a ddatblygwyd gan Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrdin i gynyddu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn glaswelltiroedd ac i gofnodi rhywogaethau planhigion.

Mae rhestr o rywogaethau Chwilfa Fawr y Dolydd yn deillio o ddangosyddion rhywogaethau glaswelltiroedd yr iseldir y Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol ynghyd â phlanhigion dolydd ychwanegol o ddiddorde.

Gellir chwilio mewn unrhyw fathau o laswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau, gan gynnwys dolydd, llwybrau coetir, mynwentydd, ymylon ffyrdd, a glaswelltiroedd amwynder gwylt.

Y cyfan y mae angen ichi ei wneud yw dilyn y camau canlynol:

- Dewiswch eich glaswelltir
- Cofnodwch enw'r lleoliad, y cyfeirnod grid a'r dyddiad
- Ewch am dro hamddenol a gwnewch nodyn o'r holl rywogaethau o blanhigion rydych yn eu gweld
- Os nad ydych yn siŵr am rywogaeth, tynnwch luniau o sawl ongl o'r blodau, y dail gwaelodol a dail y goes, arwyneb uchaf ac isaf y dail, a siâp gwaelod y dail. Yna gallwch naill ai roi neges ar ein cyfryngau cymdeithasol neu anfon neges e-bost atom a byddwn yn ceisio helpu i adnabod y rhywogaeth
- Anfonwch eich canlyniadau atom ac unwaith y byddwn wedi gorffen ein dadansoddiad Chwilfa Fawr y Dolydd, byddwn yn eu hanfon i'ch canolfan cofnodi amgylcheddol leol (LERC)

I weld cyfrifon rhywogaethau edrychwch ar ein tudalen Facebook, *Big Meadow Search*, neu ein cyfrif Twitter, @bigmeadowsearch, neu cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost: ibigmeadowsearch@gmail.com.
(Mae'r wefan yn cael ei datblygu)

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Mae'r Cór uchod wedi ail ddechrau eu hymarferion ar ól dau doriad oherwydd "Cofid" Maent yn cwrdd yn wythnosol yn Neuadd Gymunedol Cynwyl Elfed am 7.30 yr hwyr. Roedd hi'n hyfryd croesawu yr aelodau presennol yn ól ond fel pob Cór arall mae angen aelodau newydd arnom ni.

Cór pedwar llais S.A.T.B. yw'r Cór ac os oes gennych ddiddordeb i ymuno (does dim eisiau cyfweliad) cysylltwch a fi ar 01267 253686 neu a unrhyw aelod o'r Cór. Fe gewch groeso cynnes a llawer o hwyl. Cór hapus a chymdeithasol iawn yw Cór Llanpumsaint a'r Cylch.

Rydym fel Cór yn canu pob math o ganeuon o'r traddodiadol i'r modern. Ar hyn o bryd yr ydym yn canu yn Gymraeg, Saesneg a Lladin a mae'r ymarferion yn dechrau am 7.30y.h. tan 9.00y.h a hynny bob nos lau. Ble mae cyngherddau yn y cwestiwn ar hyn o bryd does dim wedi ei drefnu oherwydd cyfyngiadau Cofid ond mawr obeithir i ail-ddechrau yn yr Hydref pan byddwn yn cynnal ein Cyngerdd Blynnyddol a hynny rhywbryd ym mis Hydref. Os rhyddheir cyfyngiadau Cofid fe fyddwn pryd hynny yn derbyn gwahoddiadau i gynorthwyo elusennau lleol.

Gwyn Nicholas

Emlyn Liw Nos

Dyna le o'dd e' hen to! Llong ar dir sych yn oleddu'n raddol uwch ddyfroedd sobor y Teifi. Ond na fe , o'dd prynhawn bach a nosweth mas yn Llandysul wastad yn donic! Cychwyn yn yr Haff Mwn sha'r prynhawn a lan y stryd yn ara' bach. Wedi sawl stop gorffen lan yn y Cilgwyn Arms ac yno nes i fod e'n cal i dowli mas. Felly nawr ar bont sigledig Llandysul dros y Teifi, daeth wyneb yn wyneb ar amlwg her o gyrraedd adre'n i Bancyffordd, a ymddangosau'n dipyn yn bellach nag oedd e'r prynhawn yma. Yn sydyn sŵn car a goleuadau! Wafo fel diawl!

Ac fe stopo nhw! Wel na lwc! O'dd y bois Llanpumsaint hyn yn mynd reit hibo ei dy. Rhaid o'dd eu gwahodd miwn i glywed y dwy dair ola' o'r Top Twenti Luxemburg ar Radio newydd sbon Emlyn. Er iddi guddio dan ddau obennydd hwyl wael iawn o'dd ar ei wraig fore trannoeth wedi'r holl raitwch gwylt.

Rai wythnosau wedyn gwelir Emlyn 'nol ar y bont tua'r un amser ond mewn cyflwr ychydig yn fwy bregus. Wedi cwrdd a rhai o hen fois y gwaith. Dechreuodd ddigalonni gan nad oedd son am griw Llanpumsaint gyda'r daith droelliog sigledig tua thre yn ymweld yn fynydd enfawr. Wrth gamu'n ansicr lawr yr hewl daeth golau sydyn o'r tu ôl, a throdd ein harwr i ganol y ffordd. O'dd bechgyn Rhos Llangeler ddim yn bles a thaflwyd sawl rheg fygythiol mas drwy'r ffenest."Cer o'r ffordd y twpyn meddw diawl!" Lifft? Na! Ac 'roedd Bancyffordd yn bell mas e'u ffordd beth bynnag. Ond er ei gyflwr ' roedd Emlyn yn weddol brofiadol mewn sefyllfa fel hon Eglurodd fod yna dorth fawr o Fara Brith ar y ford gatre ac i fod e'n barod i wneud faint a fynnent o frechdannau iddynt wedyn. Ac mi fydd car posh fel hyn fawr o dro cyn cyrraedd Bancyffordd, gan ail adrodd ei edmygedd o'r car posh

Ar Werth

Sêl Ffatri Gwili dros y penwythnos 23 a 24 o Ebrill. Eitemau yn cynnwys - dodrefn, lluniau, carpeli, dillad gwely, tywelion, llestri, addurniadau a llawer mwy. Croeso i bawb o 11 yb hyd 4 yp - Drws nesa i'r Ysgol.

Carolyn Smethurst

Cegin gyflawn gyda Rhewgell, Ffwrn, gyda Lwfer Popty, gyda phob uned mewn cyflwr da. £999.00 Y prynwr i'w ddatgysylltu Ffoniwch 0761 218 683 neu 01267 253498.

Yn Dod yn Fuan

DyddHwyl y Jiwbili

Mae Pwyllgorau'r Neuadd a Lles gyda Chymdeithas Rieni'r Ysgol yn trefnu Dydd Hwyl ynystod penwythnos y jiwbili ar Sadwrn 4dd o Fehefin. Bydd yn cymerid lle yn y Maes Chwarae a'r Neuadd gyda'r gweithgareddau'n ddibynol ar y tywydd. Er nad yw'r trefniadau'n llawn bwriedircychwyn tua un o'r gloch a therfynnu tua 5yp. Os ydych yn awyddus i ymuno yn y fenter cysylltwch ag aelodau'r pwyllgorau. Daw gwybodaeth bellach drwybosteri ac hefyd ar Facebook.

Aaron Jones



Village Voice April 2022

Copy Date for next Edition 26th May 2022

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange www.llanpumsaint.org.uk,
email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice
and our website www.llanpumsaint.org.uk. We also receive funding from Llanpumsaint
Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.

Community catch-up event in the village Hall
Saturday 2nd April 2022





Children attending Cylch Meithrin,
Bronwydd for St Davids Day

**Cyfle gwych i weithio
gyda chriw o blant
talentog a hyfryd.**

**Swydd yn rhedeg Clwb
Gofal ar ôl Ysgol,
rhwng 3.30 a 5.30 ar Nos
Fawrth a Nos Iau!**

**Cysylltwch am fwy o
wybodaeth
01267253446**

**YSGOL GYNRAADD
LLANPUMSAINT**

**A great opportunity
to work with a talented and
amazing group of children.
A position to run the After
School Club between
3.30 and 5.30 on Tuesday
and Thursday!
Contact us for more
information
01267253446**



Love is in the air / Mae cariad yn yr awyr
Veronique Jones



Enjoying the spring sunshine/ Heulwen y gwanwyn
(Clare Bishop)



Marsh Tit/Titw'r Gors
(Ray Davies)

Llanpumsaint & Nebo short mat bowling club



The start of 2022 has proved to be a successful one for the Club. The first home match was a 8-0 win against Llandeilo, followed by two 6-2 wins over Llanddarog A and Llanboidy B. With just two fixtures remaining the Club find themselves second in the table with 4 wins, 1 draw and 1 loss.



The Club would also like to congratulate our Club Captain Aled Edwards who was part of a 20 strong Welsh Team who participated in the Short Mat Bowls World Championships in Belgium during March. Aled, and his pairs team mate, Dafydd Howell from Pontar gothi, won all 7 group matches and the semi-final. The final saw the pair meet the current Welsh and British Isles Champions from Pembrokeshire who took the final by 12 shots to 10. Aled came home from Belgium with a well deserved silver medal.

Two of our younger members have represented Wales Under 21s in an international against England Under 21s which was held in Swansea at the end of March. Brother and sister Rhys and Catrin Williams played exceptionally well during the course of the day, but it was a narrow overall win for England at the end of the competition.

Don't forget to check out our website Llanpumsaintsmbc.org.uk where you will find up to date information on the Club.

The Club meets in the Hall for practice on Monday and Thursday evenings from 7.30-9.30 p.m. until the end of April. New players are always welcome between the ages of 11 and 99, we have qualified coaches on hand to provide help and encouragement.

For further information please phone our Chair Derick Lock on **01267253524**, or our Secretary Jill Edwards on **01267253474**

Early birds enjoy the dawn chorus

If you are an early riser, you will already have heard the joys of the dawn chorus. From 5.30 am, the enthusiastic singing from wrens, song thrushes, blackbirds, robins and dunnocks provide a musical start to the day. International Dawn Chorus Day is celebrated on Sunday 1st May.

All but a few starlings have headed off back to northern Europe for the summer months. Early arrivals from south of the Sahara, such as the chiffchaff, are already setting up home in the local woods. Soon the swifts and house martins will return to the village. We are very fortunate that Llanpumsaint hosts such iconic birds over the summer months because both are now on the red list of conservation concern. Their numbers have dropped dramatically in recent years, partly because their breeding grounds in the UK becoming less hospitable as suitable nest sites and food are becoming more difficult to find.

Swallows will also be completing their long-distance 6000 mile flight from South Africa. Flying 200 miles each day, this journey takes about four weeks. This is an amazing feat for a little bird that weighs less than 20 grams (equivalent to four 20p coins).

So, let's give them all a warm welcome. If your house is lucky enough to be chosen as a nesting site, please tolerate any inconvenience and mess for a few short weeks before the birds turn round and head south again. And if you want to attract these birds to nest, it is not too late to put up appropriate nesting boxes.

Clare Bishop

Welfare and Recreation Association

The deadline for joining the Llanpumsaint 100 club has been extended to the end of April, so this is your last chance to get in on the action! If anyone is interested in joining, or in helping with the running of the 100 Club, please contact any of the committee members, or e-mail llanpumsaint100club@gmail.com. The cost of entering is £12 for the year with monthly draws as well as a bonus draw at Christmas time. The first two draws of the year (March and April) will take place at the end of April to coincide with this extended deadline. Good luck!

The Welfare and Recreational Association Annual General Meeting (AGM) will take place on Monday 25th April at 8pm in Llanpumsaint Memorial Hall. This meeting is open to anyone who wishes to attend, and we welcome anyone who would like to join the committee for the forthcoming year.

Works will be commencing to renew and replace some of the play equipment in the park from mid-April thanks to the funding received from the Brechfa Windfarm Fund, taking approximately 8 weeks to complete. This hopefully means that the park will be back in full use by the beginning of the summer season! We thank you in advance for your patience while this work is ongoing. This won't affect the football pitch or tennis court areas.

With the weather improving, a new tennis net will be installed in the court for budding Wimbledon contenders to practice their skills. We are very thankful for the CAVS Community Fund group who kindly provided funding for us to purchase this new equipment last year.

As ever, the committee is looking for new volunteers to join and help with the ongoing maintenance and fundraising for the park. If you would like to join then please get in touch with us via our email parcllanpumsaintpark@gmail.com, or speak to **Aaron Jones (07814157946)** or any other committee member for more information.

Tir Coed



